# Asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC

Newidiadau a gynigir i'n canllawiau

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 20 Ionawr 2026
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 24 Chwefror 2026

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................ 3
2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn ........................................................................................ 4
3. Newidiadau arfaethedig i'r canllawiau sy'n sail i reoleiddio cystadleuaeth ..................... 7

## Atodiad

A1. Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC – newidiadau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad .................................... 17
A2. Asesiad o'r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ............................................ 18
A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ........................................................................................ 20
A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ................................................................................... 23
A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ..................................................................................... 24
A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad ........................................................................................... 26

# 1. Trosolwg

1.1 Yn ein hadolygiad o Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022 ('adolygiad mis Mehefin 2022'), gwnaethom adolygu sut oedd y farchnad mae'r BBC yn gweithredu ynddi wedi newid, a gwnaethom ystyried sut mae angen i reoleiddio esblygu er mwyn aros yn addas i'r diben.

1.2 Roedd ein hadolygiad ym mis Mehefin 2022 yn argymell y dylai'r Llywodraeth ystyried gwneud newidiadau i'r Siarter a'r Cytundeb Fframwaith (y 'Cytundeb')[1] er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Ofcom yn ei brosesau rheoleiddio. Er enghraifft, bydd hyn yn ein galluogi ni i gymeradwyo newid i'r BBC heb gynnal asesiad cystadleuaeth, os ydym yn cytuno â dadansoddiad y BBC a'i fod wedi ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.

1.3 Yn Adolygiad Canol Tymor y BBC 2024 ('MTR'), cytunodd y Llywodraeth â'n hargymhellion. Mae'r Llywodraeth bellach wedi cyhoeddi diweddariadau i'r Cytundeb sy'n rhoi'r newidiadau hyn ar waith.[2] Felly, mae'r ddogfen hon yn nodi'r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'n canllawiau ynghylch sut mae effaith y BBC ar gystadleuaeth yn cael ei hasesu[3] i adlewyrchu diweddariadau'r Llywodraeth i'r Cytundeb.

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch – yn gryno

Rydym yn ymgynghori ar y diweddariadau y mae angen i ni eu gwneud i'n canllawiau yn sgil newidiadau i'r Cytundeb. Dyma'r newidiadau rydym yn ymgynghori yn eu cylch:

- Diweddariadau i'n canllawiau i adlewyrchu y gallwn nawr gymeradwyo newid sylweddol i'r BBC heb gynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu asesiad byrrach os ydym o'r farn bod materion wedi cael sylw priodol o dan Brawf Budd y Cyhoedd y BBC. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau i'n canllawiau ar y ffactorau y gallwn eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn a sut byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Cael gwared ar gyfeiriadau at "wasanaethau newydd" yn cael eu hystyried yn newid sylweddol yn awtomatig.
- Diweddariadau i'n canllawiau i adlewyrchu y gall Ofcom nawr gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau neu addasiadau ar ôl cynnal asesiad byrrach.

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 24 Chwefror 2026.

[1] Y Siarter a'r Cytundeb.
[2] Diweddariadau i Gytundeb Fframwaith y BBC, Rhagfyr 2025
[3] Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC

# 2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn

2.1 Yn yr adran hon, rydym yn:

- Esbonio sut rydym yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth, gan gynnwys newidiadau rydym wedi'u gwneud yn ddiweddar i'n canllawiau i hyrwyddo mwy o dryloywder ac ymgysylltiad yn y broses reoleiddio.
- Esbonio pam rydym yn ymgynghori ar ragor o newidiadau i'n canllawiau ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb wedi'i Ddiweddaru rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.
- Gosod allan y nodau a'r strwythur ar gyfer gweddill y ddogfen hon.

## Trosolwg o reoleiddio cystadleuaeth y BBC

### Effaith gwasanaethau cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth

2.2 Mae'r BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, ac sy'n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein yn y DU. Wrth fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Siarter a'i Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, mae'r BBC yn effeithio ar gystadleuaeth yn y diwydiant cyfryngau.

2.3 Er mwyn iddo allu parhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, mae angen i'r BBC allu addasu ei wasanaethau er mwyn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd a pharhau i fod yn berthnasol iddynt. Gall newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud sy'n gwella gwasanaethau presennol neu'n ehangu ystod ei wasanaethau fod yn gadarnhaol ar gyfer cystadleuaeth drwy gynnig mwy o ddewis, ysgogi galw'r gynulleidfa neu annog arloesedd.

2.4 Fodd bynnag, os bydd y BBC yn newid ei wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n arwain cynulleidfaoedd i symud oddi wrth wasanaethau masnachol at wasanaethau'r BBC, gall refeniw darparwyr masnachol leihau. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan leihau'r dewis cyffredinol, yr ansawdd a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU. Rydym yn cyfeirio at yr effaith hon fel 'gwthio o'r neilltu'.[4] Mewn rhai achosion eithafol, mae'n bosibl y bydd cwmnïau'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau'n gyfan gwbl, gan danseilio lluosogrwydd a dewis yn sector cyfryngau'r DU.

2.5 Mae'n rhaid i'r BBC geisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

### Cydbwyso diogelu cystadleuaeth â chaniatáu i'r BBC addasu ac arloesi

2.6 Mae'r BBC yn gweithredu mewn sectorau sy'n wynebu newid arwyddocaol. Yn ein hadolygiad yn 2022, gwnaethom edrych yn fanwl ar newidiadau yn y farchnad ac ar ein

[4] Nid gwthio o'r neilltu yw'r unig ffordd y gall y BBC niweidio cystadleuaeth – er enghraifft, mae perygl y gallai gweithgarwch y BBC gael effeithiau niweidiol ar wasanaethau mewn rhannau eraill o gadwyn gyflenwi cyfryngau'r DU.

gwaith rheoleiddio, a gwnaethom ystyried a oedd angen unrhyw newidiadau i sicrhau bod rheoleiddio'n dal yn addas i'r diben.

2.7 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaethom ystyried a allai fod mwy o hyblygrwydd i'r BBC wneud newidiadau'n gyflymach mewn meysydd lle gallai ei effaith ar gystadleuaeth fod wedi lleihau, ac mewn meysydd lle gallai'r BBC ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol arwyddocaol. Felly, gwnaethom argymell newidiadau i'r Cytundeb a oedd yn ceisio gwella effeithlonrwydd y fframwaith rheoleiddio ar yr un pryd â chadw digon o warchodaeth rhag y posibilrwydd o effeithiau heb gyfiawnhad ar gystadleuaeth. Dyma'r newidiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud i'r Cytundeb:

a) cael gwared ar y cysylltiad awtomatig rhwng y BBC yn cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ac Ofcom yn cynnal asesiad cystadleuaeth y BBC, er mwyn i Ofcom allu penderfynu y gall y BBC wneud y newid arfaethedig heb gynnal asesiad cystadleuaeth os yw Ofcom o'r farn, yn unol â'i ganllawiau, bod materion wedi cael sylw priodol o dan Brawf Budd y Cyhoedd y BBC;
b) galluogi Ofcom i gymeradwyo newid gydag amodau gan ddefnyddio asesiad byrrach; a
c) newid y diffiniad o newid 'sylweddol' fel nad yw gwasanaethau cyhoeddus newydd yn cael eu hystyried yn rhai sylweddol yn awtomatig (byddai'r prawf p'un a allai'r newid neu wasanaeth newydd gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn dal yn berthnasol).

2.8 Yn dilyn ein hadolygiad yn 2022, fe wnaethom hefyd ymgynghori ar newidiadau i'n canllawiau i annog mwy o ymgysylltu a thryloywder rhwng y BBC a rhanddeiliaid, ac i ddarparu mwy o eglurder ynghylch y broses reoleiddio. Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom ni gyhoeddi datganiad ar sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth. Roedd y datganiad hwn yn nodi'r newidiadau i'n canllawiau ynghylch sut mae effaith y BBC ar gystadleuaeth yn cael ei hasesu. Nod y newidiadau oedd ceisio annog mwy o ymgysylltu a thryloywder rhwng y BBC a rhanddeiliaid, a darparu mwy o eglurder ynghylch y broses reoleiddio.

2.9 Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi ein hail Adolygiad Cyfnodol o berfformiad y BBC yn ystod cyfnod y siarter bresennol, sy'n cwmpasu 2021 i 2025. Yn Adran 4 o'r Adolygiad Cyfnodol rydym yn nodi ein barn bod y fframwaith asesu cystadleuaeth wedi parhau i weithredu'n effeithiol (gyda newidiadau i wasanaethau cyhoeddus wedi'u cymeradwyo a heb eu caniatáu yn ystod y cyfnod); bod y BBC wedi gwella o ran tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac y gallai'r newidiadau roeddem wedi'u hawgrymu yn 2023 i wella hyblygrwydd arwain at welliant pellach.

2.10 Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Hadolygiad Canol Tymor o'r BBC, a oedd yn dweud y byddai'n gweithredu'r argymhellion roeddem wedi'u gwneud mewn perthynas â rheoleiddio cystadleuaeth. Cafodd y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru ei gyhoeddi ar 16 Rhagfyr 2025[5], a bydd y diwygiadau i'r paragraffau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yn dod i rym chwe mis o'r dyddiad cyhoeddi[6]. Yn y ddogfen hon rydym yn ymgynghori ar sut dylem ddiweddaru ein canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Cytundeb.

[5] Diweddariadau i Gytundeb Fframwaith y BBC, Rhagfyr 2025

[6] Pan fydd y BBC, mewn perthynas â newid, wedi dechrau asesiad Prawf Budd y Cyhoedd o dan baragraff 8 o'r Cytundeb Fframwaith a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016 (diweddarwyd ym mis Mai 2022) cyn i'r diwygiadau i gymalau (10-15) ddod i rym, bydd hyn yn cael ei asesu gan y BBC ac Ofcom yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Fframwaith blaenorol hwnnw.

## Rheoleiddio'r effaith ar gystadleuaeth o dan y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru

2.11 Mae'r Cytundeb yn darparu dwy ffordd o fynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth a allai godi o weithgareddau'r BBC: yn gyntaf, ffordd o ystyried newidiadau i weithgareddau'r BBC cyn iddynt gael eu gweithredu, ac yn ail, ffordd o ystyried effaith gwasanaethau ar gystadleuaeth yn barhaus.

2.12 O dan y Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am asesu a allai'r newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau cyhoeddus fod yn 'sylweddol' (asesiad perthnasedd). O dan y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru, mae newid yn sylweddol os gallai gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.13 Pan fydd newid yn un 'sylweddol', mae'r BBC yn cynnal asesiad i weld a yw'r gwerth cyhoeddus yn cyfiawnhau effeithiau ar gystadleuaeth (Prawf Budd y Cyhoedd neu 'PIT'). O dan y Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom hefyd asesu a yw'r newid yn un sylweddol. O dan y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru, os byddwn yn penderfynu ei fod yn sylweddol, byddwn yn ystyried a yw'n briodol cynnal asesiad cystadleuaeth, neu benderfynu y gall y BBC gyflawni'r newid pan fyddwn yn fodlon â phroses Prawf Budd y Cyhoedd y BBC[7], yn unol â'n canllawiau (sef yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ymgynghori arnynt).

2.14 Pan fydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg o niwed i gystadleuaeth yn sgil gweithgareddau parhaus y BBC, mae gan Ofcom adnoddau rheoleiddio i fynd i'r afael â hyn, gan ddefnyddio adolygiad cystadleuaeth y BBC (BCR). Gallwn gynnal adolygiad cystadleuaeth y BBC os oes gennym sail resymol dros gredu bod cyflawni un o'r gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Fel rhan o BCR mae'n rhaid i ni asesu a yw gwerth cyhoeddus y gweithgaredd perthnasol yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Efallai y byddwn yn dod i'r casgliad y gall y BBC barhau â'r gweithgaredd, neu'n datgan bod rhaid iddo wneud addasiadau, neu barhau â'r gweithgaredd yn unol ag amodau.

# Nodau a strwythur y ddogfen hon

2.15 Yn y ddogfen hon rydym yn ymgynghori ar ein cynigion i ddiweddaru ein canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, i adlewyrchu'r Cytundeb wedi'i Ddiweddaru.

2.16 Yng ngweddill y ddogfen hon:

- Mae Adran 3 yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'n canllawiau.
- Mae Atodiad 1 yn darparu testun llawn ein canllawiau, sy'n nodi'r newidiadau arfaethedig.
- Mae Atodiad 2 yn nodi ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Mae Atodiadau 3 i 6 yn nodi sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'n proses ymgynghori.

[7] Er nad yw'r Cytundeb yn nodi rôl benodol i Ofcom adolygu canfyddiadau asesiadau perthnasedd lle mae'r BBC wedi canfod nad yw newid yn un sylweddol, mae gennym y pŵer i gamu i mewn a chyfarwyddo'r BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd os ydym yn anghytuno ar berthnasedd.

# 3. Newidiadau arfaethedig i'r canllawiau sy'n sail i reoleiddio cystadleuaeth

3.1 Yn y bennod hon rydym yn nodi'r prif newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r canllawiau. Mae hyn yn cynnwys:

- Diweddariadau arfaethedig i'n canllawiau i adlewyrchu'r opsiwn newydd sydd gan Ofcom i gymeradwyo newid sylweddol i'r BBC heb gynnal asesiad cystadleuaeth lle rydym yn fodlon â Phrawf Budd y Cyhoedd y BBC, gan gynnwys:
  - Ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth;
  - Gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar y penderfyniad uchod, a
  - Gwneud yn glir pryd y byddai asesiad byrrach yn dal yn gallu bod yn briodol, o ystyried ein hopsiwn newydd i beidio â chynnal asesiad.
- Newidiadau arfaethedig i adlewyrchu dileu 'gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU' o'r diffiniad o sylweddol.
- Newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i adlewyrchu'r ffaith y gallwn nawr gymeradwyo newid i'r BBC *gydag amodau* drwy ddefnyddio asesiad byrrach.

Rydym yn egluro ein rhesymeg dros y cynigion yn yr adrannau canlynol. Mae ein newidiadau arfaethedig i'r canllawiau wedi'u nodi mewn dyfyniadau. Mae ychwanegiadau arfaethedig i'r canllawiau wedi'u nodi mewn **print trwm**, ac mae ~~llinell drwy~~'r hyn sydd i'w ddileu. Mae'r diwygiadau arfaethedig hyn wedi'u nodi'n llawn yn y ddogfen ganllaw ddiwygiedig arfaethedig yn Atodiad 1.

## Egluro sut bydd Ofcom yn penderfynu a oes modd cymeradwyo newid i'r BBC heb gynnal asesiad cystadleuaeth

3.2 O dan y Cytundeb blaenorol, roedd yn rhaid i Ofcom gynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu asesiad byrrach lle'r oedd y BBC wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd a ninnau wedi cytuno bod y newid yn un sylweddol.

3.3 Bydd y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru yn ein galluogi ni i gymeradwyo newid sylweddol i'r BBC heb gynnal naill ai Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu asesiad byrrach lle rydym yn fodlon ar Brawf Budd y Cyhoedd y BBC. Pan fydd Ofcom yn penderfynu peidio â chynnal asesiad cystadleuaeth, mae'r Cytundeb yn nodi bod yn rhaid i Ofcom gyhoeddi ei resymeg dros ei benderfyniad.

3.4 Bydd y newid i'r Cytundeb yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol ac yn lleihau hyd cyffredinol y broses reoleiddio lle mae'r BBC wedi asesu effeithiau'r newid ar gystadleuaeth a gwerth cyhoeddus yn briodol ac wedi canfod bod cyfiawnhad dros unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth. Fel rhan o hyn, bydd angen i'r BBC ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ac ystyried eu pryderon yn briodol.

3.5 Rydym yn cynnig gwneud nifer o newidiadau i’n canllawiau i adlewyrchu sut y byddwn yn mynd i’r afael â’r opsiwn newydd hwn yn ein proses reoleiddio. Nodwn y rhain isod.

## Ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a oes angen asesiad pellach

3.6 Er mwyn rhoi mwy o eglurder i’r BBC a rhanddeiliaid eraill, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod ein canllawiau’n nodi’r ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a oes angen asesiad. Bydd hyn yn cynnwys ffactorau sy’n ymwneud ag ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid a’i asesiad. Rydym yn trafod isod y ffactorau rydym yn cynnig eu hystyried yn fanylach. Yn 3.34 nodir sut rydym yn cynnig egluro yn ein canllawiau pryd y byddem yn dal i ddisgwyl i asesiad byrrach fod yn briodol, o ystyried ein hopsiwn newydd i beidio â chynnal asesiad.

3.7 Nid yw’n ofynnol yn y Cytundeb Fframwaith i ni ymgynghori ar ein penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal asesiad cystadleuaeth. Fodd bynnag, rydym yn cynnig gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar benderfyniad i beidio â chynnal asesiad, ac rydym yn nodi’r broses arfaethedig ar gyfer hyn isod.

### Ymgysylltiad y BBC

3.8 Pe baem yn caniatáu i’r BBC fwrw ymlaen i weithredu newid sylweddol heb gynnal asesiad cystadleuaeth, un ffactor y byddai angen i ni fod yn fodlon arno fyddai lefel yr ymgysylltu yr oedd y BBC wedi’i wneud fel rhan o’i broses Prawf Budd y Cyhoedd. Fel y dywedom wrth gynnig newidiadau i’r canllawiau yn 2023, mae ymgysylltu'n effeithiol ac ystyrlon â rhanddeiliaid yn galluogi’r BBC i ddeall yr effeithiau posibl y gallai ei newidiadau eu cael, a hefyd yn ei alluogi i ystyried a ellid diwygio cynnig i liniaru pryderon a godir gan randdeiliaid. Pan fyddwn yn ystyried peidio â chynnal asesiad cystadleuaeth, bydd yn arbennig o bwysig bod proses ymgysylltu ac ymgynghori’r BBC wedi bod yn effeithiol oherwydd, er y byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, ni fyddwn yn ymgynghori’n fanwl ar ddadansoddiad y BBC. Felly, rydym yn cynnig nodi mewn canllawiau y ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a yw’r BBC wedi ymgysylltu’n effeithiol â rhanddeiliaid.

3.9 Er mwyn i’r BBC allu ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid yn briodol a gallu, lle bo angen, lliniaru effeithiau posibl ar gystadleuaeth drwy wneud newidiadau i’w gynigion, bydd angen iddo ymgysylltu ar adeg pan fydd modd gwneud newidiadau i’w gynigion. Felly, rydym yn cynnig ystyried a yw’r BBC wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod cam o’r broses lle byddai rhanddeiliaid yn dal yn gallu cael dylanwad arwyddocaol ar y cynigion.

3.10 Bydd hefyd yn bwysig i’r BBC ymgysylltu mewn ffordd dryloyw ac adeiladol wrth iddo ddatblygu ei ddadansoddiad, a nodi lefel o fanylion yn ei ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd sy’n golygu bod rhanddeiliaid yn gallu ymgysylltu’n ystyrlon ar gynnig (fel pe baem yn caniatáu i’r BBC weithredu newid heb gynnal asesiad cystadleuaeth, ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd yw’r unig gyfle i randdeiliaid wneud sylwadau penodol ar ddadansoddiad y BBC).

3.11 Rydym yn cynnig ychwanegu’r canllawiau canlynol o ran yr hyn rydym yn disgwyl ei weld gan y BBC:

***4.43 Wrth benderfynu a all y BBC gyflawni’r newid arfaethedig heb asesiad cystadleuaeth gan Ofcom, gallwn ystyried y rhestr ganlynol o ffactorau:***

***a) A yw’r BBC wedi ymgysylltu â phartïon sydd â diddordeb ar adeg lle mae’n dal yn realistig y gallai mewnbwn ddylanwadu’n ystyrlon ar gynigion mewn ffordd sy’n lliniaru effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.***

***b) A yw wedi bod yn dryloyw gyda rhanddeiliaid ynghylch ei gynlluniau ac wedi darparu digon o amser a manylion i ganiatáu i drydydd partïon ddeall y cynnig a'i ddadansoddiad yn llawn a darparu mewnbwn adeiladol. Fel arfer, dylai hyn gynnwys darparu'r canlynol:***

***i. Manylion y newidiadau arfaethedig a'r amserlenni ar gyfer eu gweithredu***
***ii. Dadansoddiad o'r effaith bosibl ar y farchnad***
***iii. Dadansoddiad o'r gwerth cyhoeddus***

***4.44 Er mwyn cyfrannu at ein penderfyniad, byddwn yn siarad â rhanddeiliaid i ddeall yr ymgysylltiad maent wedi'i gael â'r BBC, ac yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw bryderon ynghylch effeithiolrwydd yr ymgysylltiad.***

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

1) Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ychwanegu canllawiau ar sut byddwn yn ystyried ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid fel ffactor wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth?

## Asesiad y BBC

3.12 Wrth benderfynu a ddylid cynnal asesiad cystadleuaeth ai peidio, byddwn yn ystyried a ydym yn cytuno â chasgliadau'r BBC yn ei Brawf Budd y Cyhoedd. Er mwyn i ni allu penderfynu a ydym yn cytuno, byddai angen i ni ddeall yn glir sut mae'r BBC wedi mynd ati i gynnal ei ddadansoddiad, er mwyn i ni fod yn fodlon ei fod wedi ystyried y materion perthnasol yn ddigonol ac wedi dod i gasgliadau ar sail tystiolaeth. Er mwyn i ni allu deall dull y BBC o ddadansoddi, mae'n hanfodol bod y BBC yn ymgysylltu â ni yn ystod ei broses Prawf Budd y Cyhoedd.

3.13 Fel y nodir uchod, bydd angen i'r BBC ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, a dylai ei asesiad adlewyrchu canlyniadau'r ymgysylltiad hwn. Er enghraifft, os yw rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am effeithiau posibl newid yn ystod y broses ymgysylltu, dylai'r BBC ystyried hyn yn ei asesiad, a gweld a yw'n briodol addasu ei gynigion i liniaru unrhyw effeithiau.

3.14 Bydd angen iddo ddangos yn glir i ni fod y BBC, yn ei asesiad, wedi ystyried yn briodol yr effeithiau posibl y gallai ei gynnig eu cael ar gystadleuaeth, a pha werth cyhoeddus y mae'r cynnig yn debygol o'i gyflawni.

3.15 Byddwn hefyd yn ystyried a fyddai'n ddyblygol i ni gynnal asesiad cystadleuaeth ein hunain. Nid yw hyn yn golygu bod angen i ddadansoddiad y BBC adlewyrchu popeth y byddem efallai wedi'i wneud mewn asesiad. Yn hytrach, byddwn yn ystyried a fyddai unrhyw waith ychwanegol y byddem ni'n ei wneud yn debygol o ychwanegu ymhellach at gasgliadau'r BBC. Rydym yn cydnabod efallai na fydd y BBC yn gallu ystyried popeth y mae'n bosibl y byddem ni'n ei ystyried mewn asesiad, oherwydd efallai na fydd ganddo fynediad at yr holl wybodaeth sydd gennym ni. Er enghraifft, efallai y bydd rhanddeiliaid yn dewis peidio â rhannu gwybodaeth â'r BBC sy'n sensitif yn fasnachol. Os byddwn ni'n cael gwybodaeth o'r fath, byddwn yn ystyried a fyddai cynnwys yr wybodaeth hon wedi bod yn debygol o newid canlyniad Prawf Budd y Cyhoedd y BBC. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ein penderfyniad i gynnal asesiad pellach.

3.16 Rydym yn cydnabod bod gan y BBC gymhelliant i ddod i gasgliad cadarnhaol yn ei Brawf Budd y Cyhoedd, gan mai dim ond newid y mae'n dymuno ei wneud y bydd yn ei gynnig.

Felly, pan fydd Prawf Budd y Cyhoedd y BBC yn dod i law, byddwn yn ceisio gweld a yw wedi cynnal ei asesiad mewn ffordd gadarn a chytbwys, gan asesu'r effeithiau'n wrthrychol.

3.17 Rydym yn cynnig ychwanegu'r canllawiau isod:

***4.43 Wrth benderfynu a all y BBC gyflawni'r newid arfaethedig heb asesiad pellach, gallwn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys p'un ai:***

***c) A ydym yn cytuno â chanlyniad dadansoddiad y BBC***
***d) A yw'r BBC wedi ymgysylltu ag Ofcom yn ystod proses Prawf Budd y Cyhoedd er mwyn i ni ddeall ei ddull o ddadansoddi***
***e) A yw'r BBC wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid yn ei ddadansoddiad ac wedi addasu ei gynlluniau lle bo hynny'n briodol***
***f) A yw safon gwaith y BBC ei hun yn golygu ein bod yn credu y byddai asesiad llawn yn ddyblygol i raddau helaeth.***

***4.45 Mae gan y BBC gymhelliant i ddod i gasgliad cadarnhaol yn dilyn Prawf Budd y Cyhoedd, a byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y gwaith yn briodol gytbwys ac yn gadarn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, trafodaeth lawn a gwrthrychol o effeithiau niweidiol a chyfyngiadau yn yr achos gwerth cyhoeddus.***

***4.46 Rydym yn cydnabod y gallai fod achosion lle nad yw rhanddeiliaid wedi gallu rhannu data â'r BBC oherwydd rhesymau cyfrinachedd. Os byddwn ni'n cael yr wybodaeth hon a'i bod yn debygol y byddai wedi newid canlyniad y dadansoddiad, byddai angen i ni ystyried cynnal asesiad cystadleuaeth. Ni fydd gwybodaeth ychwanegol gan randdeiliaid bob amser yn golygu ein bod yn penderfynu cynnal asesiad llawn.***

### Cwestiwn yr ymgynghoriad

2) Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ychwanegu canllawiau ar sut byddwn yn ystyried asesiad y BBC fel ffactor wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth?

## Effaith graddfa newid

3.18 Efallai y bydd effeithiau posibl newid yn ffactor y byddwn yn ei ystyried wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth. Rydym o'r farn, os oes gan gynnig gan y BBC achos cryf a grymus dros ddarparu gwerth cyhoeddus, a bod yr effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn fach ac yn angenrheidiol ac yn berthnasol i'r gwerth cyhoeddus hwnnw, y byddem yn llai tebygol o fod angen cynnal asesiad cystadleuaeth.

3.19 Rydym yn cynnig ychwanegu'r canllawiau isod:

***g) Pan mae'n amlwg bod achos gwerth cyhoeddus mawr a chryf, a bod yr effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn ymddangos yn fach ac yn angenrheidiol o'i gymharu â'r gwerth cyhoeddus, byddem yn fwy tebygol o ystyried peidio â chynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC.***

### Cwestiwn yr ymgynghoriad

3) Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ychwanegu canllawiau ar sut byddwn yn ystyried effaith graddfa newid?

## Sut byddwn yn ystyried y ffactorau hyn

3.20 Rydym wedi nodi uchod amrywiaeth o ffactorau y gallem eu hystyried wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth. Nid ydym yn credu y bydd angen i'r BBC fod wedi cyflawni

ein disgwyliadau sy’n berthnasol i bob un o’r ffactorau hyn er mwyn i ni beidio â chynnal asesiad, ac ni fwriedir i’r rhestr o ffactorau a nodir uchod fod yn gwbl gyflawn. Mae’n bosibl y bydd rhai eraill y byddwn o’r farn sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau. Wrth ystyried y ffactorau, byddwn yn eu hasesu yn eu cyfanrwydd, fesul achos. Efallai y bydd adegau pan fydd angen i ni, yn unol â’n blaenoriaethau gweinyddol, ystyried hefyd a oes gennym yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal asesiad cystadleuaeth.

*4.47* ***Er mwyn penderfynu bod y BBC yn gallu gwneud newid heb asesiad pellach, ni fyddai’n rhaid i ni gael ein bodloni bod y BBC wedi cyflawni ein disgwyliadau sy’n berthnasol i bob un o’r ffactorau hyn. Byddwn yn ystyried sut mae wedi eu bodloni yn eu cyfanrwydd, fesul achos. Efallai y bydd achosion hefyd lle mae’n briodol i ni ystyried a yw’r adnoddau sydd eu hangen i gynnal asesiad llawn yn gymesur â graddfa’r cynnig.***

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

4) Ydych chi’n cytuno â’n cynnig i nodi mewn canllawiau sut byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth ar gyfer newid i’r BBC?

## Gwahodd sylwadau ar benderfyniad i beidio â chynnal asesiad pellach

### Cyhoeddi ein penderfyniad dros dro i beidio â chynnal asesiad

3.21 Pan fyddwn yn dod i benderfyniad dros dro nad oes angen asesiad pellach o newid i’r BBC, rydym yn cynnig y byddwn yn cyhoeddi’r penderfyniad dros dro hwn ac yn gwahodd rhanddeiliaid i roi sylwadau ar hyn, a byddwn yn bwriadu nodi hyn yn y canllawiau.

3.22 Rydym yn disgwyl ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod proses Prawf Budd y Cyhoedd y BBC i ddeall sut mae’r BBC wedi ymgysylltu â nhw, ac felly deall pryderon posibl rhanddeiliaid ynghylch cynnig. Fel y soniwyd yn yr adran uchod, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud penderfyniad dros dro i beidio â chynnal asesiad cystadleuaeth.

3.23 Bydd cyhoeddi a gwahodd sylwadau ar ein penderfyniad dros dro yn golygu bod rhanddeiliaid yn dal yn cael cyfle i roi sylwadau ar hyn fel rhan o’n proses reoleiddio ac i godi unrhyw bryderon ynglŷn â’n penderfyniad. Fodd bynnag, nid dyblygu ymgysylltiad y BBC ac ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd yw’r bwriad o wahodd sylwadau gan randdeiliaid ar y cam hwn. Pan fyddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad dros dro i beidio â chynnal asesiad, yn gyffredinol byddwn yn fodlon ar ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid, a bod ei asesiad wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid yn briodol. Bydd gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar ein penderfyniad yn galluogi rhanddeiliaid i ddweud wrthym pam eu bod yn cytuno neu’n anghytuno â’r penderfyniad hwn.

4.36 *Gallwn wahodd trydydd partïon i ddweud a ydynt yn credu bod cynigion cyhoeddedig y BBC yn rhai sylweddol, ac a oes angen* ***Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu*** *asesiad* ***byrrach*** *~~pellach~~.* ***Pan fyddwn o’r farn bod elfennau o Asesiad Cystadleuaeth y BBC wedi cael sylw priodol ym Mhrawf Budd y Cyhoedd y BBC, byddwn bob amser yn gwahodd trydydd partïon i roi sylwadau cyn dod i benderfyniad y gall y BBC gyflawni’r newid arfaethedig heb asesiad cystadleuaeth Ofcom.*** *~~Os~~* ***Lle*** *byddwn yn gwneud hyn, yn gyffredinol byddwn yn gosod terfyn amser o bythefnos i drydydd partïon ymateb.*

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

5) Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i nodi, yn sgil ein hopsiwn newydd i beidio â chynnal asesiad cystadleuaeth, pryd byddwn yn gwahodd trydydd parti i roi sylwadau ar ein penderfyniad?

## Gwneud y glir pryd y byddwn nawr yn ystyried cynnal asesiad byrrach

3.24 Gan fod y Cytundeb yn rhoi'r opsiwn i ni nawr i beidio â chynnal asesiad pellach pan rydym yn fodlon â phroses Prawf Budd y Cyhoedd y BBC, rydym yn cynnig diwygio ein canllawiau ar ba bryd y gallai asesiad byrrach fod yn briodol.

3.25 Mae ein canllawiau presennol yn datgan y gallai asesiad byrrach fod yn briodol pan fydd Prawf Budd y Cyhoedd y BBC yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r holl faterion neu'r rhan fwyaf ohonynt. Gan fod y Cytundeb bellach wedi cael ei ddiweddaru, os yw Prawf Budd y Cyhoedd y BBC wedi rhoi sylw digonol i bob mater, mae'n debygol y byddem yn ystyried peidio â chynnal asesiad. Felly mae angen i ni addasu ein canllawiau i adlewyrchu hynny.

3.26 Rydym yn cynnig y newid canlynol i'n canllawiau:

> *4.48 (…) Rydym yn disgwyl y bydd asesiadau byrrach o bosibl yn briodol yn yr amgylchiadau canlynol:*
>
> - *Pan mae'r Prawf Budd y Cyhoedd a gynhelir gan y BBC yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r ~~holl faterion (neu'r~~ rhan fwyaf o faterion~~)~~ (...)*

3.27 Yn yr un modd, yn yr adran hon o'r canllawiau (4.49), rydym yn nodi'r ffactorau y gallem eu hystyried wrth benderfynu rhwng Asesiad Cystadleuaeth y BBC ac asesiad byrrach. Mae hyn yn datgan y gallwn ystyried cynnal asesiad byrrach pan fydd safon gwaith y BBC yn golygu ein bod o'r farn y byddai asesiad llawn yn ddyblygol. Gan fod gennym bellach yr opsiwn i beidio â chynnal asesiad, rydym yn cynnig diweddaru'r canllawiau hyn i egluro'r ffactorau y byddem yn eu hystyried wrth benderfynu a fyddai asesiad byrrach yn briodol.

> *4.49 Wrth benderfynu **os yw unrhyw un** ~~pa un~~ o'r asesiadau uchod **yn** ~~yw'r mwyaf priodol~~ **briodol**, byddwn yn ystyried y ffactorau sydd fwyaf perthnasol yn ein barn ni o dan yr amgylchiadau. Bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar ffeithiau'r achos ond gallant gynnwys (yn ddigyfyngiad):*
>
> - *Trylwyredd, ansawdd a chydbwysedd Prawf Budd y Cyhoedd y BBC. Byddai cynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC llawn yn cynnwys adolygu gweithdrefnau'r BBC ac asesiad y BBC o'r gwerth cyhoeddus, ac asesu'r effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ac a yw hyn yn cael ei gyfiawnhau gan werth cyhoeddus. Os yw safon gwaith y BBC ei hun yn golygu, **yn gyffredinol**, ein bod o'r farn y byddai asesiad llawn yn ddyblygol **ond bod meysydd penodol sy'n cyfiawnhau asesiad pellach, mae'n bosibl y byddwn yn ystyried cynnal** ~~y byddai hyn yn ffactor wrth benderfynu cynnal~~ asesiad byrrach ~~sy'n fwy cyfyngedig~~.*

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

6) Ydych chi'n cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i'n canllawiau i egluro pryd y gallai asesiad byrrach fod yn briodol?

## Newidiadau eraill i'n canllawiau i ddarparu eglurder ochr yn ochr â'r ychwanegiadau arfaethedig uchod

3.28 Mae'n amlwg i ni y gallai'r canllawiau yn 4.48, sy'n nodi pryd y gallai asesiad byrrach fod yn briodol, gael eu gwneud yn gliriach gan fod angen gwahaniaethu hyn yn awr oddi wrth achosion lle na fyddem yn disgwyl bod angen asesiad.

3.29 Mae'r canllawiau presennol yn datgan y gallai asesiad byrrach fod yn briodol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle nad yw rhannau mawr o'r cynnig i newid yn peri llawer o bryder ond bod angen ystyried elfen gyfyngedig (e.e. elfen y gellir ei gwahanu o gynnig).
- Lle mae'r Prawf Budd y Cyhoedd a gynhelir gan y BBC yn mynd i'r afael â'r holl faterion (neu'r rhan fwyaf o faterion) yn ddigonol.

3.30 Rydym ni o'r farn nad yw'n eglur o bosibl beth yw'r gwahaniaeth mewn ystyr rhwng y ddau bwynt hyn, ac rydym yn cynnig egluro'r canllawiau fel a ganlyn er mwyn gwneud yn glir beth rydym yn ei olygu[8]:

4.48

(...)

- ~~*Lle nad yw rhannau mawr o'r cynnig i newid yn peri llawer o bryder ond bod angen ystyried elfen gyfyngedig (e.e. elfen y gellir ei gwahanu o gynnig).*~~
- *Lle mae'r Prawf Budd y Cyhoedd a gynhelir gan y BBC yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion yn ddigonol,* ***a/neu lle nad yw cynnig i newid fel arfer yn peri llawer o bryder, ond mae angen ystyried elfen gyfyngedig (a allai gael ei wahanu).***

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

7) Ydych chi'n cytuno â'n diwygiad arfaethedig i'r canllawiau er mwyn egluro'r testun yn sgil newidiadau eraill i'n canllawiau?

# Cael gwared ar 'gwasanaeth cyhoeddus newydd' o'r diffiniad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn newid 'sylweddol'

3.31 Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom argymell i'r Llywodraeth na ddylai gwasanaethau newydd y BBC gael eu hystyried yn newidiadau 'sylweddol' yn awtomatig.[9] Roeddem o'r farn y gallai fod rhai achosion lle'r oedd gwasanaethau newydd yn annhebygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac felly na ddylent fod yn destun Prawf Budd y Cyhoedd.

3.32 Roedd y Cytundeb blaenorol yn diffinio newid 'sylweddol' fel a ganlyn:

a) cyflawni unrhyw weithgaredd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU; ac

---

[8] Sylwch fod y canllawiau presennol yn nodi *lle mae'r Prawf Budd y Cyhoedd y BBC yn rhoi sylw digonol i'r* ***holl faterion (neu'r rhan fwyaf o faterion)***. Yn y testun hwn rydym wedi adlewyrchu newidiadau eraill rydym yn eu cynnig eu gwneud i'r canllawiau oherwydd y newid i'r Cytundeb er mwyn rhoi'r opsiwn i Ofcom beidio â chynnal asesiad, fel sy'n cael ei egluro yn 3.24 – 3.26 y ddogfen hon.

[9] Datganiad: Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, paragraffau 6.30-6.31, 22 Mehefin 2022

b) unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.33 Mae'r Llywodraeth a'r BBC wedi diweddaru'r Cytundeb i ddileu 'cyflawni unrhyw weithgarwch fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU' o'r diffiniad o newid sylweddol. Felly, rydym wedi diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu na fydd newid yn cael ei ystyried yn sylweddol oni bai y gallai gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.34 Er na fydd gwasanaeth newydd yn cael ei ystyried yn sylweddol yn awtomatig mwyach, bydd yn dal angen i'r BBC benderfynu a allai gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ac felly mae'n newid sylweddol.

3.35 Pan mae'r BBC yn cyhoeddi newid arfaethedig, yn gyntaf mae'n rhaid i Ofcom asesu a yw'r newid yn sylweddol.[10] Mae ein canllawiau'n nodi amrywiaeth o ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth ystyried a yw newid yn un sylweddol. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ffactor sy'n ymwneud â 'newyddwch' neu 'newydd-deb' newid, gan y byddai unrhyw wasanaeth newydd wedi cael ei ystyried yn newid sylweddol yn awtomatig. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau i'r diffiniad o 'newid sylweddol', rydym o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol i ni gynnwys a yw newydd-deb newid yn golygu y gallai ei effaith fod yn fwy ansicr fel rhan o'r rhestr anghyflawn o ffactorau y gallwn eu hystyried o ran a yw newid yn sylweddol. Nid yw ansicrwydd ynghylch effaith newid newydd yn golygu ei fod o reidrwydd yn sylweddol, ond byddem yn ystyried a yw'r ansicrwydd hwn yn arwain at risg o effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.36 Mae ein newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:[11]

3.37 Cael gwared ar y cyfeiriad at "gwasanaethau cyhoeddus newydd yn y DU" yn bod yn sylweddol yn awtomatig:

> ~~*4.7 Mae'r Cytundeb yn nodi'n glir y bydd cyflwyno Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU bob amser yn cael ei ystyried yn "sylweddol" ac felly'n destun Prawf Budd y Cyhoedd fel y nodir isod.*~~
>
> ~~*4.7 Gall y BBC hefyd gynnig newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus nad ydynt yn Wasanaethau Cyhoeddus "newydd" yn y DU (h.y. sy'n weithgareddau newydd nad ydynt yn wasanaethau, neu newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus presennol yn y DU neu weithgareddau nad ydynt yn wasanaethau).*~~ *I benderfynu a yw'r newidiadau ~~hyn~~ yn rhai "sylweddol", mae'n rhaid i'r BBC ystyried a allai'r newid "gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol".*

> *4.40 Mewn perthynas â pherthnasedd,* ~~*dylai cyflwyno "Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU" fod yn weddol hawdd ei adnabod. Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth ar gyfer*~~

[10] Ar gyfer newidiadau sylweddol, mae'n rhaid i'r BBC gynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y 'newid arfaethedig'. Os bydd y BBC yn penderfynu bod budd y cyhoedd wedi'i fodloni, bydd yn cyhoeddi'r newid arfaethedig ac yn anfon copi i Ofcom.

[11] Rydym hefyd yn cynnig newidiadau i'r adran hon o'r canllawiau oherwydd y newid i Gymal 9 y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru. Mae'r blwch glas hwn o dan 3.37 yn dangos yr holl newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond dim ond y newidiadau sy'n berthnasol i Gymal 7 y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru sy'n cael eu dangos fel testun wedi'i amlygu neu wedi'i groesi drwyddo.

> ~~*newidiadau eraill, lle*~~ *byddwn yn ystyried a allai*~~*'r rhain*~~ ***newidiadau arfaethedig*** *"gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol".*

> *4.48 Os byddwn yn dod i'r casgliad bod asesiad pellach yn briodol, y ddau opsiwn a fyddai ar gael i ni fyddai:*
>
> - *BCA. (…)*
> - *Asesiad cystadleuaeth byrrach. (…). Rydym yn disgwyl y byddai asesiadau byrrach yn briodol o bosibl yn yr amgylchiadau canlynol:*
>
> ~~*- Pan fydd angen gweithdrefn Ofcom yn dechnegol oherwydd bod cynnig y BBC yn ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, ond nad oes modd dod o hyd i unrhyw broblemau go iawn o ran cystadleuaeth.*~~

3.38 Ychwanegu canllawiau ynghylch sut y gallem ystyried 'newydd-deb' newid fel rhan o a allai newid "gael effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol":

> *4.40 (…) Mae rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ffactorau y gallem eu hystyried wrth asesu effaith niweidiol arwyddocaol bosibl newid yn cynnwys:*
>
> *(…)*
>
> - ***newydd-deb newid ac a yw hynny'n golygu bod ei effaith yn fwy ansicr.***

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

8) Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau rydym yn eu cynnig i'r canllawiau i adlewyrchu'r newid i'r Cytundeb (yng Nghymal 9)?

## Nodi'r broses ar gyfer Ofcom yn cymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau gan ddefnyddio asesiad byrrach

3.39 Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom argymell i'r Llywodraeth y dylid diwygio'r Cytundeb i alluogi Ofcom i gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau gan ddefnyddio asesiad byrrach.[12] O dan y Cytundeb blaenorol, gallem dim ond cymeradwyo newid gydag amodau neu addasiadau ar ôl Asesiad Cystadleuaeth y BBC.

3.40 Mae'r Cytundeb wedi'i Ddiweddaru yn nodi y gall Ofcom benderfynu y gall y BBC gyflawni newid arfaethedig yn unol ag addasiadau o'r fath i'r gwasanaeth, neu yn amodol ar amodau o'r fath, y mae Ofcom o'r farn sy'n briodol, yn dilyn asesiad byrrach.

3.41 Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Ofcom allu cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i liniaru pryderon cystadleuaeth a nodir ym Mhrawf Budd y Cyhoedd y BBC heb yr angen i gynnal Asesiad llawn ar Gystadleuaeth y BBC yn gyntaf. Byddai hyn yn helpu i gael gwared ar oedi diangen cyn i'r BBC weithredu newidiadau.

3.42 Mae'n dal yn wir mai dim ond ar ôl cynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC yn llawn y byddwn yn gallu rhwystro newid.

[12] Datganiad: Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, paragraffau 6.28-6.29, 22 Mehefin 2022

3.43 Mae sawl man yn y canllawiau lle byddwn yn cynnig testun newydd i adlewyrchu'r newid hwn. Rydym wedi nodi isod enghraifft o'n newidiadau arfaethedig, ac mae'r newidiadau arfaethedig llawn i'n canllawiau i'w gweld yn Atodiad 1.

> *4.79 Yn achos asesiad byrrach, nid ydy'r Cytundeb yn caniatáu i ni benderfynu na chaiff y BBC wneud y newid*[13] ~~*na mynnu ei fod yn gwneud addasiadau*~~*. Fodd bynnag, os byddwn yn nodi problemau yn ystod asesiad byrrach* ***sy'n golygu ei bod yn bosibl y gallem ddod i'r casgliad na fydd y BBC yn gallu cyflawni'r newid*** ~~*mae dulliau o'r fath yn ymddangos yn debygol o fod yn briodol i ddatrys y materion a nodwyd*~~*, efallai y byddwn yn ymestyn y weithdrefn o asesiad byrrach i Asesiad Cystadleuaeth y BBC.*

> *2.6 (…) Mae Cymalau 11 ac 20 yn nodi canlyniadau posibl Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu asesiad byrrach. Mae'r rhain yn benderfyniad gan Ofcom y gall y BBC gyflawni'r newid, na all y BBC gyflawni'r newid; y gall y BBC gyflawni'r newid yn amodol ar addasiadau neu amodau, neu fod yn rhaid i'r BBC ailystyried elfennau o'r Prawf Budd y Cyhoedd neu ddilyn unrhyw weithdrefnau pellach sy'n briodol yn ein barn ni. Gallwn ond rhwystro newid* ~~*neu ei wneud yn amodol*~~ *yn dilyn Asesiad Cystadleuaeth y BBC ac nid asesiad byrrach.*

### Cwestiwn yr ymgynghoriad

9) Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau rydym yn eu cynnig i'r canllawiau i adlewyrchu'r newid i'r Cytundeb (yng Nghymal 11)?

---

[13] Cymal 11(2) y Cytundeb wedi'i Ddiweddaru mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, a chymal 20(2) mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau.

# A1. Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC – newidiadau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad

Atodiad 1: diweddariadau arfaethedig i Ganllawiau Ofcom ar gyfer asesu newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC

# A2. Asesiad o’r effaith ac asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

## Asesiad o’r effaith

A2.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu’r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

A2.2 Mae’r holl newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud fel rhan o’r ymgynghoriad hwn yn dilyn y diweddariadau i’r Cytundeb, a’u nod yw sicrhau bod testun ein canllawiau yn adlewyrchu hyn yn gywir. Er enghraifft, rydym yn cynnig cael gwared ar gyfeiriadau at “Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU” sy’n cael eu hystyried yn sylweddol yn awtomatig oherwydd nad yw’r Cytundeb yn datgan bod hyn yn wir mwyach.

A2.3 Fel rhan o hyn, rydym yn cynnig newidiadau i’n canllawiau sy’n ceisio darparu manylion ynghylch sut byddwn yn asesu newidiadau i’r BBC, yn unol â’r Cytundeb wedi’i ddiweddaru. Effaith hyn fydd mwy o dryloywder i randdeiliaid ynghylch ein proses. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei fod yn golygu y bydd gan fusnesau sy’n gweithredu yn y farchnad fwy o eglurder ynghylch sut bydd Ofcom yn ystyried newidiadau arfaethedig i’r BBC, a gwell dealltwriaeth o beth i’w ddisgwyl a sut i ymgysylltu â’n proses.

## Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

A2.4 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (“Deddf 2010”) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy’n gysylltiedig â’r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i’r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.5 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (“Deddf 1998”) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau sy’n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i’r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom[14] yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â’n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

A2.6 I’n helpu i gydymffurfio â’n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o’r fath neu’n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A2.7 Nid ydym wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiadau effaith ar wahân mewn perthynas â chydraddoldeb hil neu ryw, neu gynlluniau cydraddoldeb o dan Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd Gogledd Iwerddon. Y rheswm am hyn yw ein bod yn rhagweld na fydd ein newidiadau arfaethedig i’n canllawiau ynghylch asesu'r effeithiau ar gystadleuaeth

[14] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/123737/Revised-NI-Equality-Scheme.pdf

yn sgil newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn cael effaith wahaniaethol ar bobl o wahanol rywiau, neu ethnigrwydd, defnyddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yng Ngogledd Iwerddon neu ddefnyddwyr anabl, o'i gymharu â defnyddwyr yn gyffredinol.

A2.8 Nid ydym wedi canfod unrhyw effeithiau negyddol posibl ar unrhyw grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'n cynigion penodol neu'n berthnasol iddynt.

A2.9 Mae ein cynigion yn ymwneud â sut mae effeithiau newidiadau i wasanaethau'r BBC ar gystadleuaeth yn cael eu hasesu. Felly, mae natur unrhyw effeithiau go iawn ar gynulleidfaoedd yn dibynnu ar y newidiadau penodol y gallai'r BBC eu cynnig, a sut mae ein fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y newidiadau hynny (a allai fod yn berthnasol i unrhyw grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig).

A2.10 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y dylai ein cynigion gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar allu'r BBC i barhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys y rheini o grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau ar yr un pryd bod pob cynulleidfa'n parhau i elwa o gystadleuaeth deg ac effeithiol yn y sectorau y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 24 Chwefror 2026.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/bbc/consultation-assessing-the-impact-of-proposed-changes-to-the-bbcs-public-service-activities. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, gofynnwn i chi ei anfon dros e-bost i BBCCompetitionConsultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 31 Mawrth 2026.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Content Policy Development
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.9 Byddai'n ddefnyddiol pe bai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai'n bosibl i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A3.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sy'n codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i BBCCompetitionConsultation@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod Ch2 2026.

A3.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

A3.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A3.21 Corporation Secretary
Ofcom

Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn dweud yn glir gyda phwy rydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos, gan ddibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ychwanegu canllawiau ar sut byddwn yn ystyried ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid fel ffactor wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ychwanegu canllawiau ar sut byddwn yn ystyried asesiad y BBC fel ffactor wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ychwanegu canllawiau ar sut byddwn yn ystyried effaith graddfa newid?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i nodi mewn canllawiau sut byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth benderfynu a oes angen asesiad cystadleuaeth ar gyfer newid i'r BBC?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i nodi, yn sgil ein hopsiwn newydd i beidio â chynnal asesiad cystadleuaeth, pryd byddwn yn gwahodd trydydd parti i roi sylwadau ar ein penderfyniad?

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i'n canllawiau i egluro pryd y gallai asesiad byrrach fod yn briodol?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'n diwygiad arfaethedig i'r canllawiau er mwyn egluro'r testun yn sgil newidiadau eraill i'n canllawiau?

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau rydym yn eu cynnig i'r canllawiau i adlewyrchu'r newid i'r Cytundeb (yng Nghymal 9)?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau rydym yn eu cynnig i'r canllawiau i adlewyrchu'r newid i'r Cytundeb (yng Nghymal 11)?